DATGANIAD I'R WASG
11 Tachwedd 2009

Llywydd newydd Urdd Gobaith Cymru

Cyhoeddwyd yng nghyfarfod Cyngor Urdd Gobaith Cymru ddydd Sadwrn, 7 Tachwedd, mai Edryd Eynon fydd Llywydd y mudiad am y flwyddyn nesaf.

Derbyniodd Edryd ei addysg yn Ysgol Beca, Efailwen ac Ysgol Uwchradd y Preseli. Aeth Edryd yn ei flaen i ennill gradd Cymraeg a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth.

Mae'r Urdd wedi chwarae rhan flaenllaw ym mywyd Edryd dros y blynyddoedd. Cymerodd ran yng nghystadlaethau'r Urdd bob blwyddyn, boed hynny ar lwyfan yr Eisteddfod neu ar y meysydd chwarae.

Wedi blynyddoedd o ymweld ag Eisteddfod yr Urdd fel cystadleuydd, mae Edryd bellach yn paratoi ac yn hyfforddi plant ar gyfer yr ŵyl bob mis Mai, a hynny fel athro yn Ysgol Gynradd Bro Brynach, Llanboidy.

Mae Edryd yn aelod o bwyllgor yr Urdd Cylch Cwm Taf yn ogystal â phwyllgor rhanbarthol Sir Benfro. Ef hefyd ydi Arweinydd Adran ac Aelwyd Ffynnonwen yr Urdd, ac mae'n cael gwir fwynhad o drefnu amrywiol weithgareddau i'r aelodau yn enw'r Urdd bob wythnos.

Meddai Edryd;
''Wedi cystadlu'n gyson fel unigolyn ac mewn grwpiau yn Eisteddfod yr Urdd, braint yw cael rhannu fy mhrofiadau â'r to iau yn Ysgol Bro Brynach ac yn Adran ac Aelwyd Ffynnonwen. Derbyniais brofiadau gwerthfawr tu hwnt gan yr Urdd dros y blynyddoedd ac anrhydedd fydd cael bod yn Llywydd y mudiad dros y flwyddyn sydd i ddod. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr her ac yn ddiolchgar iawn am y cyfle.''

Dywedodd Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru;
''Braint yw gweld unigolyn sydd wedi bod mor weithgar yn enw'r Urdd yn cael ei ethol yn Llywydd y mudiad. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio gydag Edryd ac rwy'n siŵr y bydd ei frwdfrydedd a'i egni heb anghofio'r cyfoeth o gefndir sydd ganddo o fudd iddo dros y flwyddyn sydd i ddod.''

Is Lywyddion y mudiad yw Eirian Jones o Ynys Môn a Bethan Mair Williams o Gaerdydd.

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Wyn, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115, manonwyn@urdd.org

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.